

Diogelu'r Cyhoedd A Chefnogi Busnesau Yn Ystod Y Pandemig



Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

Effeithiau a chanlyniadau'r Gwasanaethau
Safonau Masnach Lleol 2020/21 yng Nghymru



Ers i Gymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach (ACTSO) greu'r Fframwaith Effaith a Chanlyniadau yn 2018/19, mae wedi adrodd yn flynyddol ar y gwaith a wneir gan Wasanaethau Safonau Masnach awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr. Diben yr adroddiad hwn yw tynnu sylw at effaith gyfunol Gwasanaethau Safonau Masnach yng Nghymru yn ystod 2020-21.

Fel o'r blaen, amlinellir canlyniadau'r coladu diweddaraf o dan dair thema:

- Mynd i'r Afael â Cholled ac Atal Niwed
- Cefnogi'r Economi Leol, a
- Hybu Iechyd a Llesiant

Fodd bynnag, mae adran ychwanegol wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn, sy'n ymroddedig i'r gwaith a wneir gan Safonau Masnach yng Nghymru, ynghyd â chydweithwyr eraill mewn awdurdodau lleol, mewn ymateb i bandemig COVID 19.

Fel y gwelwch yn y tudalennau sy'n dilyn, mae Swyddogion Safonau Masnach yng Nghymru er eu bod yn fach o ran nifer, yn chwarae rhan hynod arwyddocaol wrth ddiogelu defnyddwyr, gan sicrhau iechyd a llesiant anifeiliaid, a chefnogi busnesau cyfrifol ac ar yr un pryd cymryd camau cadarn yn erbyn masnachwyr twyllodrus a'r rhai sy'n torri'r gyfraith. Y penawdau allweddol i Gymru yn yr adroddiad cyfredol yw:

- Llwyddodd gweithredoedd Safonau Masnach i atal colled o dros £1 miliwn
- Rhoddwyd dedfrydau carchar o 344 mis (29 mlynedd). Mae hyn yn cynnwys dedfrydau ar unwaith ac wedi'u gohirio
- Cynyddwyd y galw am y gwasanaeth yn ôl nifer yr atgyfeiriadau gan Gyngor ar
- Bopeth yn sylweddol - credwn fod y cynnydd hwn yn ymwneud i raddau helaeth â hysbysiadau am faterion megis canslo gwyliau a digwyddiadau a materion ad-dalu.
- Gostyngodd bron pob gweithgaredd gorfodi nad oedd yn ymwneud â Covid, yn bennaf oherwydd llawer o Lysoedd yn cau ac ôl-groniadau mawr iawn a achoswyd gan Covid.
- Cynyddodd nifer y cosbau ariannol penodedig ond mae hyn yn debygol oherwydd cyfyngiadau Covid ar sail Cosbau Ariannol Penodedig.
- Yn gysylltiedig â hyn, gostyngodd iawn nad oedd yn gysylltiedig â sgamiau gan fod cyfyngiadau Covid wedi golygu mai dyfarniadau cyfyngedig iawn am iawndal oedd gan Lysoedd ac ni chafwyd atafaelu arian gan fasnachwyr diegwyddor.

- Cynyddodd nifer y dioddefwyr sgamiau a gefnogwyd.
- Cynyddodd y gefnogaeth i fusnesau, y tu allan i'r cynllun awdurdod sylfaenol ffurfiol, yn bennaf oherwydd cyfyngiadau COVID

Gan droi at rôl Safonau Masnach yn ymateb COVID yr awdurdodau lleol, cefnogodd gwasanaethau yng Nghymru gynghorau gyda dros 42,000 o ymholiadau a chynhaliwyd dros 48,000 o ymweliadau. Ar yr un pryd, mae Safonau Masnach wedi parhau i ddangos ei werth enfawr wrth ganolbwyntio cefnogaeth ar ddiogelu'r rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau; a chefnogi busnesau lleol trwy gyfnodau anodd iawn.

Mae gwasanaethau Safonau Masnach yn parhau i fod yn hanfodol i ymateb yr awdurdodau lleol i COVID, ac i ddarparu iechyd y cyhoedd yn ogystal â rheolaethau dan arweiniad y llywodraeth sy'n diogelu pobl a busnesau rhag niwed - ein diben craidd bob amser. Effaith yr holl waith hwn, ochr yn ochr a'r hyn a ddarperir trwy'r Safonau Masnach Cenedlaethol, yw tynnu sylw at y canlyniadau y gellir eu cyflawni gan ddefnyddio'r system Safonau Masnach.

Y gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn helpu rheolwyr gwasanaeth i eirioli dros eu gwasanaethau ar lefel leol, yn ogystal â dangos effaith genedlaethol Safonau Masnach ar yr holl bartneriaid a rhanddeiliaid ac, yn benodol, i helpu i hysbysu Llywodraethau Cymru a San Steffan pan fyddant yn datblygu polisi a fydd yn effeithio ar Safonau Masnach.

Rydym yn hynod falch o'r effaith enfawr a wnaed gan Wasanaethau Safonau Masnach yng Nghymru yn ystod 2020-21 - blwyddyn a oedd mor heriol ar sawl lefel, yn broffesiynol ac yn bersonol. Mae'n arbennig o werth chweil gweld eu gwaith caled yn cael ei feintio trwy'r Fframwaith Effeithiau a Chanlyniadau ac rydym yn ddiolchgar i ACTSO am goladu'r data ac am ei gefnogaeth i gyflwyno'r adroddiad hwn mewn fformat sy'n benodol i Gymru.

Helen Picton

Cadeirydd Safonau Masnach Cymru a Chynrychiolydd Cymru Cymdeithas Prif Swyddogion Safonau Masnach =

Steve Ruddy
Cadeirydd ACTSO



CEFNDIR A METHODOLEG

Gofynnwyd i awdurdodau lleol yng Nghymru gyflwyno data ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21. Mae'r dangosyddion yn mesur galw ac adnoddau ochr yn ochr ag allbynnau a chanlyniadau allweddol gweithgaredd Safonau Masnach. Cyfrannodd 17 o wasanaethau, yn cynnwys 17 allan o 20 (72%) o wasanaethau Safonau Masnach awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae'r ymatebion yn ymwneud ag ardal â phoblogaeth o 2,704,896, neu 85% o boblogaeth Cymru. Er mwyn dangos effaith genedlaethol amcangyfrifedig Safonau Masnach, mae'r ffigurau wedi'u haddasu i gyfrif am y boblogaeth a'r gyfradd ymateb ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r ffigurau canlyniadol yn amcangyfrif effaith a lefelau gweithgaredd Cymru gyfan.

GALW AC ADNODD

Amcangyfrifir bod y gyllideb refeniw fras a ddyrannwyd i Safonau Masnach ychydig yn llai na £8 miliwn. Eleni derbyniodd llawer o awdurdodau lleol grantiau untro ychwanegol ar gyfer gwaith yn ymwneud â Gadael yr Undeb Ewropeaidd a Covid, a fydd wedi'u defnyddio i gefnogi amrywiol elfennau o gyflenwi rheoliadol.

Ffynonellau incwm eraill oedd grantiau Safonau Masnach Cenedlaethol ar gyfer amrywiol weithgareddau, ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer ymweliadau yn ymwneud â bwyd anifeiliaid ac isafbris uned alcohol, arian i gefnogi ymchwiliadau ac incwm gwaith yr Awdurdod Sylfaenol. Amcangyfrifir bod oddeutu 206 o weithwyr amser llawn yn cael eu cyflogi ar waith Safonau Masnach. Nid yw hyn wedi newid ers y llynedd. O'r rheini, mae 89% yn staff "gweithredol". Derbyniodd Safonau Masnach bron i 280,000 o atgyfeiriadau a hysbysiadau i'w gwasanaethau.

Daw'r mwyafrif gan Gyngor ar Bopeth. Rydym wedi profi cynnydd yn ystod 2020/21 y credwn ei fod yn gysylltiedig i raddau helaeth â hysbysiadau am ganslo gwyliau a digwyddiadau a materion ad-dalu

ADRAN 1 : MYND I'R AFAEL Â CHOLLED AC ATAL NIWED

Un o swyddogaethau allweddol Safonau Masnach yw atal colled i ddefnyddwyr a busnes (ariannol ac anariannol), mynd i'r afael â'r ymddygiad troseddol sy'n arwain ato a chefnogi dioddefwyr. Amcangyfrifodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2015 fod gwir werth anfantais defnyddwyr a busnes ledled y Deyrnas Unedig oddeutu £14.8 biliwn y flwyddyn. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi Arolwg Colled i Ddefnyddwyr wedi'i ddiweddarau yn 2021.

1.1 Rhoi'r gorau i Fasnachu Twyllodrus, Anghyfreithlon ac Annheg

Pan fydd unigolion yn torri'r gyfraith yn fwriadol, yn anwybyddu cyngor dro ar ôl tro, neu'n achosi niwed sylweddol, bydd y Gwasanaethau Safonau Masnach yn erlyn. Mae gan ddeddfwriaeth Safonau Masnach amrywiaeth o gosbau gan gynnwys: carchar; dirwyon; fforffedu asedau; cosbau sefydlog; ac ymrwymadau i atal diffyg cydymffurfio yn y dyfodol. Mae llawer o'r ymchwiliadau sy'n mynd i'r afael â throseddoldeb difrifol yn gymhleth, yn cymryd llawer o amser, a gallant gymryd sawl blwyddyn i'w dwyn i brawf.

Yn 2020/21, oherwydd y pandemig, ychydig iawn o achosion a ddygwyd trwy'r system Llysoedd gan fod y mwyafrif o Lysoedd ar gau am gyfnodau hir ac mae ôl-groniadau sylweddol wedi cronni. Mae'r defnydd o ymgymeriadau Deddf Menter yn gymharol isel gyda dim ond 11 yn cael eu gweithredu. Eleni, roedd cyfradd dorri o 0% ar yr ymgymeriadau a roddwyd. Dim ond ar gyfer torri amodau penodol y gellir defnyddio ymgymeriadau yn hytrach nag ar gyfer yr holl waith Safonau Masnach.

Hefyd, wrth i wasanaethau ganolbwyntio adnoddau prin yn gynyddol ar y lefelau uchaf o golled, bydd hyn yn aml yn golygu mai defnyddio achos troseddol yw'r llwybr mwyaf priodol ar gyfer gorfodi.

Yn 2020/21, amcangyfrifir ledled Cymru:

- Aethpwyd â **86 o ddiffynnyddion** trwy'r broses erlyn a'u dyfarnu'n euog
- Rhoddwyd dedfrydau carchar o **344 mis** (29 mlynedd). Mae hyn yn cynnwys dedfrydau ar unwaith ac wedi'u gohirio
- Gorchmynnwyd diffynnyddion i dalu dros £196,000 mewn dirwyon a dros **£140,000** mewn costau
- Gorchmynnwyd diffynnyddion i dalu dros **£435,000 mewn Elw Troseddau**

1.2 Colled a Gwneud iawn

Gellir sicrhau gwneud iawn ac iawndal i ddioddefwyr trosedd fel rhan o'r broses erlyn neu trwy amryw ffyrdd eraill. Gall ymatebion cyflym i adroddiadau o droseddau stepen drws a thwyll arall ar waith arwain at Swyddogion Safonau Masnach yn perswadio darpar ddioddefwyr i beidio â throsglwyddo arian parod na sieciau. Mae erlyn ac aflonyddu ymddygiad troseddol, a darparu cyngor a chefnogaeth i'r cyhoedd ar sut i gael bargaen deg, atal niwed pellach a cholled ariannol.

Gellir sicrhau gwneud iawn ac iawndal i ddioddefwyr trosedd fel rhan o'r broses erlyn neu trwy amryw ffyrdd eraill. Unwaith eto, roedd y rhain yn llawer is na 2019/20 oherwydd cau ac ôl-groniadau yn y Llysoedd fel yr amlinellwyd uchod. Yn ogystal, roedd gweithgareddau fel ymatebion cyflym yn bersonol i adroddiadau o droseddau stepen drws a thwyll arall, a gynlluniwyd i atal cwsmeriaid rhag trosglwyddo arian, hefyd yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau Covid. Mae erlyn ac aflonyddu ymddygiad troseddol, a darparu cyngor a chefnogaeth i'r cyhoedd ar sut i gael bargaen deg, yn atal niwed pellach ac anfantais ariannol.

Yn 2020/21, amcangyfrifir bod gweithredoedd y Gwasanaethau Safonau Masnach wedi arwain at yr isod:

- **Dyfarnwyd dros £10,000** o iawndal i ddioddefwyr gan y llysoedd
- **Ataliwyd dros £167,000** rhag cael ei drosglwyddo i droseddwyr
- **Enillwyd dros £54,000** i ddioddefwyr trwy gyngor ac ymyrraeth
- **Rhwystrowyd dros £1,000,000** o golled gan weithredoedd Safonau Masnach

1.3 Cefnogi Dioddefwyr Sgam

Mae twyll yn parhau i fod yn un o'r troseddau mwyaf cyffredin yn y DU. Trwy waith ymchwilio ac aflonyddgar, mae Safonau Masnach yn adnabod ac yn cefnogi dioddefwyr sgamiau. Bydd swyddogion yn estyn allan at y dioddefwyr hyn, yn enwedig y dioddefwyr twyll mwyaf bregus ac yn aml oedrannus. Mae Safonau Masnach fel arfer yn ymweld â nhw gartref, ond eleni mae'r ymweliadau hyn wedi bod yn gyfyngedig iawn oherwydd cyfyngiadau Covid. Mae gwasanaethau Safonau Masnach ledled Cymru wedi ceisio defnyddio gwahanol ffyrdd o gysylltu â dioddefwyr, er enghraifft dros y ffôn.

Mae hyn yn dangos yr ymrwymiad sydd gan Safonau Masnach i gefnogi'r rhai mwyaf bregus, hyd yn oed yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, cydnabyddir bod cyswllt wyneb yn wyneb yn rhoi cefnogaeth i'r dioddefwr ac yn cael gwell darlun cudd-wybodaeth mewn perthynas â'u ffordd o fyw e.e. pentyrrau o bost sgam yn y tŷ neu arwyddion eraill o esgeulustod. Mae hyn yn amlwg yn yr astudiaethau achos a'r adborth Compass a dderbyniwyd gan Dîm Sgamiau NTS.

Gwnaeth defnyddwyr yr ymwelir â hwy gartref arbedion sylweddol a deall maint yr erledigaeth yn llawn. Y nod yw sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i'w hatal rhag ymateb i sgamiau; a bydd hyn yn helpu i wella eu llesiant. Mewn rhai achosion, mae Safonau Masnach yn gosod atalyddion galwadau i atal galwadau sgam rhag cyrraedd unigolion bregus a gweithio gydag asiantaethau diogelu eraill os oes angen. Mae Tîm Sgamiau NTS yn cefnogi awdurdodau lleol gyda'r gwaith hwn.

Yn 2020/2021, amcangyfrifir ledled Cymru:

- Bod Safonau Masnach awdurdodau lleol wedi cynnig cefnogaeth i bron i **1,000 o ddioddefwyr**
- Fe wnaeth gwaith i darfu ar bostiadau twyll marchnata torfol, atal taliadau allan, post, ac ati arbed mwy na **£222,000 i ddefnyddwyr Cymru**



Cyngor Sir Ceredigion

I Gyngor Sir Ceredigion, mae gwerthu cŵn bach, gan fridwyr cŵn trwyddedig a didrwydded lleol yn brif bryder. Yn ystod y pandemig, roedd cŵn bach yn cael eu gwerthu o amrywiol ffynonellau trwyddedig/didrwydded y gwyddys amdanynt yn lleol am o leiaf £2,500 yr un (rhai yn gymaint â £4,000). Mae'r gwasanaeth wedi dod ar draws defnyddwyr sydd wedi gwario dros £20,000 ar filiau milfeddygol ar ôl talu £3,500 am gi bach sâl ac wedyn yn gorfod rhoi'r ci i gysgu. Mae bridwyr diegwyddor (trwyddedig a didrwydded) yn cynhyrchu symiau enfawr o arian wrth ddangos ychydig neu ddim ystyriaeth i lesiant anifeiliaid a hawliau defnyddwyr. O ganlyniad, mae nifer o fridwyr lleol yn cael eu hymchwilio ar hyn o bryd gyda chymorth Tîm Ymchwiliadau Rhanbarthol Safonau Masnach Cymru. Mae hwn yn weithgaredd troseddol hynod broffidiol a risg isel i fasnachwyr diegwyddor.

Cyngor Sir Ynys Môn

O ganlyniad i ymdrechion y Tîm Safonau Masnach, ataliwyd cryn dipyn o PPE gan gynnwys hylif diheintio a masgiau wyneb "wedi'u gwnio gartref" rhag bod ar gael i'r cyhoedd, gan osgoi unrhyw anafiadau neu niwed.

Arweiniodd profion pellach ar hylif diheintio at dynnu 3 brand o'r farchnad (darparwyd cyngor i'w gwneud i gydymffurfio). Gwaith i stopio jig-sos mewn porthladd yn Suffolk - mater diogelwch posibl a labelu (arweiniodd ymyrraeth gan Safonau Masnach â labelu a phrofi at gydymffurfio). Arweiniodd gynnydd mewn cynhyrchion "cartref" fel cwyr a chanhwyllau o ran goblygiadau diogelwch cynnyrch hefyd at greu llwyth gwaith ychwanegol heb ei gynllunio.

Continued on page 6

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Yn yr un modd ag awdurdodau lleol eraill, dargyfeiriwyd llawer o adnoddau Safonau Masnach i waith gorfodi arall yn ystod 2020-2021, gan gynnwys Profi Olrhain Diogelu a gorfodaeth arall yn gysylltiedig â Covid-19. Pan ddigwyddodd y cyfnod clo, symudodd y gwasanaeth i fonitro busnesau o bell, ar-lein, ac ati.

Manteisiodd y gwasanaeth hefyd ar greu cysylltiadau cryfach â gwasanaethau eraill yn yr Awdurdod sy'n gysylltiedig â chymorth busnes a hefyd i geisio codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth mewn perthynas â'i waith sgamiau, gan ddatblygu cynllun blocio galwadau i'w lansio yn 2021-2022.

Cyngor Dinas Casnewydd

Gwnaeth swyddogion gryn dipyn o waith 'cydymffurfio â chontract' gydag asiantau teithio a busnesau tebyg a wrthododd ad-dalu cwsmeriaid. Cynghorwyd a chynorthwywyd 22 o ddefnyddwyr yng Nghasnewydd pan oeddent yn cael anhawster cael ad-daliadau am wyliau a archebwyd yn dilyn canslo a chau yn ystod Covid-19.

Roedd y materion yn ymwneud â gwyliau pecyn, teithiau bws a ffioedd safleoedd carafanau. Darparwyd cyngor busnes ar gydymffurfio â chontractau a thrafodwyd gwneud iawn i'r defnyddwyr. Roedd y llwyddiannau nodedig yn cynnwys un achos a amlygwyd yn y cyfryngau a arweiniodd at ad-daliad llawn ac un achos a gyfeiriwyd yn llwyddiannus at gynllun cyflafareddu ABTA.

Cyfanswm y ffigur colled amcangyfrifedig oedd £17,363.07 gyda £17,013.07 wedi'i adfer yn llwyddiannus i ddefnyddwyr lleol.

Cyngor Sir Penfro

Deliodd Safonau Masnach Sir Benfro â masnachwr ar stepen drws a gynhaliodd ymweliadau niferus ag oedolyn bregus a oedd ag anawsterau dysgu. Roeddent yn mynnu taliadau heb wneud gwaith neu'n gwneud gwaith gwael iawn. Cafodd yr unigolyn ei ddychryn a'i ddrysau gan nifer o fasnachwyr yr amheuir eu bod yn gysylltiedig. Ceisiodd y masnachwr dynnu lluniau o'r dioddefwr ac roedd awgrymiadau o 'gogio', lle mae troseddwr yn defnyddio cartref y dioddefwr bregus at ddibenion anfad. Arweiniodd ymchwiliad gan yr heddlu lleol a chymorth cynghorydd lleol at erlyn y masnachwr a dderbyniodd orchymyn atal yn atal unrhyw ddull pellach o gysylltu â'r dioddefwr

Gwasanaethau Rheoleiddio ar y Cyd

Roedd yr heriau a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19 yn 2020-2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth ddod o hyd i ffyrdd arloesol o godi ymwybyddiaeth o sgamiau, masnachu twyllodrus a throseddau stepen drws. Cyflwynwyd pedair sesiwn hyfforddi i bartneriaid a gwasanaethau rheng flaen mewn cymysgedd o fformatau personol a rhithiol. Postiwyd deunydd codi ymwybyddiaeth newydd am sgamiau a thwyll i feddygfeydd a fferyllfeydd meddygon teulu ledled rhanbarth SRS gan ddarparu cyngor ataliol allweddol. Roedd y llythyr eglurhaol at bob un, yn gwahodd y safle i arddangos y deunyddiau mewn meddygfeydd a ffenestri blaen, gan ddarparu cyngor ataliol allweddol. Dosbarthwyd y pecynnau codi ymwybyddiaeth newydd i gyfanswm o 101 meddygfa a 139 o fferyllfeydd, ac maent wedi cael croeso cynnes.

Hefyd, yn ystod y flwyddyn, gwnaed cyfanswm o 4 ymateb cyflym i ddigwyddiadau o droseddau stepen drws a gosodwyd 8 atalydd galwadau ychwanegol yng nghartrefi preswylwyr sy'n cael eu peledu gan alwadau niwsans. Roedd y ddau wasanaeth hyn yn cynnig tawelwch meddwl penodol i'r rhai yr effeithiwyd arnynt a'u teuluoedd.

Cyngor Abertawe

Cymerodd Cyngor Abertawe ddau erlyniad, y ddau yn ymwneud â bwyd, sydd wedi diogelu'r cyhoedd: Erlynwyd cwmni siop ddisgownt yn gwerthu bwyd a oedd ag alergenau heb eu datgan a hefyd wedi disgrifio bwyd ar gam. Roedd yr achos hwn yn amddiffyn cwsmeriaid a oedd ag alergeddau a hefyd yn amddiffyn defnyddwyr rhag bwyd a ddisgrifiwyd ar gam. Cafodd hyn effaith genedlaethol yn hytrach nag un leol yn unig.

Roedd ail achos yr erlyniad yn erbyn cadwyn bwytaï a oedd yn gwerthu prydau yr honnwyd eu bod yn cynnwys cimwch ond, o edrych yn agosach, canfuwyd ei fod yn cynnwys cynnyrch cyfansawdd a oedd yn cynnwys dim ond 35% o gimwch. Roedd y cynhyrchion hyn yn cael eu gwerthu am bris premiwm ar draws eu holl gadwyni ledled y wlad. Yn dilyn yr achos hwn, tynnodd y gadwyn yr holl gynhyrchion o bob rhan o'u siopau. Anfonodd hyn neges glir at fanwerthwyr eraill nad yw'n dderbyniol disgrifio bwyd ar gam i ddefnyddwyr.

SECTION TWO: CEFNOGI'R ECONOMI LEOL

Mae angen cyngor a chefnogaeth gan Safonau Masnach ar fusnesau i'w helpu i lywio'r ystod o ddeddfau sy'n sicrhau eu bod yn masnachu'n deg a bod eu cynhyrchion yn ddiogel. Roedd hyn yn arbennig o hanfodol eleni pan oedd angen i fusnesau ymateb i ddeddfwriaeth Covid ac roedd angen i lawer newid eu busnesau i sectorau marchnad ar-lein neu wahanol i oroesi yn ystod y pandemig. Mae hefyd yn bwysig ar gyfer marchnad weithredol effeithiol bod busnesau cyfreithlon yn gwybod y bydd eu cystadleuwyr yn cydymffurfio â'r gyfraith ac y bydd chwarae teg ac y bydd y rhai sy'n gwrthod cydymffurfio yn cael eu cosbi.

2.1 Busnesau'n Cael y Cymorth a'r Gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i Ffynnu a Thyfu

Mae twf economaidd yn flaenoriaeth allweddol i bob awdurdod lleol, mae darparu cyngor a chefnogaeth i fusnesau yn bwysicach nag erioed. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig eleni. Mae Gwasanaethau Safonau Masnach yn cynnig cyngor i fusnesau ar y ddeddfwriaeth y maen nhw'n ymdrin â hi.

Mae Partneriaethau Awdurdod Sylfaenol yn galluogi rhoi cyngor sicr i fusnes gyda sawl siop neu safle trwy un awdurdod lleol. Darparodd Gwasanaethau Safonau Masnach dros 930 awr o'r cyngor hwn. Yn ystod 2020/21, roedd y rhan fwyaf yn fusnesau'r Awdurdod Sylfaenol, sy'n tueddu i fod yn rhai mwy, yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â'r pandemig megis gweithrediadau diogel Covid, grantiau a ffyrlo ac felly gostyngodd y galw am gyngor penodol ar Safonau Masnach.

Roedd Safonau Masnach yn darparu cryn dipyn o gyngor ar gyfer busnesau newydd a'r rhai sydd angen newid gweithrediadau i glicio a chasglu neu eu dosbarthu ar-lein.

Yn 2020/21, amcangyfrifir ledled Cymru bod:

- Safonau Masnach wedi ymateb i dros **3,384** o geisiadau am gyngor gan fusnesau
- 68 o Bartneriaethau Awdurdod Sylfaenol ar waith sy'n ymwneud â **60 o fusnesau** ac **8 cymdeithas fasnach**, pob un â sawl aelod
- Safonau Masnach wedi treulio dros **930 awr yn cyngori busnesau** Awdurdod Sylfaenol yng Nghymru

2.2 Creu a Chynnal Maes Chwarae Teg ar gyfer Cystadleuaeth Ddiogel a Theg

Mae Gwasanaethau Safonau Masnach yn cadw at fodel a arweinir gan wybodaeth lle cymerir camau yn erbyn y busnesau sydd â'r risg uchaf. Gall hyn gynnwys ymweliadau i gynnig cyngor a gwybodaeth, atafaelu cynhyrchion ffug neu anniogel, neu gychwyn ymchwiliad yn yr achosion mwyaf difrifol.

Mae Safonau Masnach hefyd yn cefnogi busnesau cyfreithlon trwy gynlluniau masnachwyr da sy'n helpu i hyrwyddo eu busnesau.

Yn 2020/21, amcangyfrifir ledled Cymru bod:

- **Dros 2,500** o ymweliadau wedi'u cynnal â busnesau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith ac i gynnig cyngor i'w helpu i ddatrys unrhyw ddiffyg cydymffurfio. Nid yw hyn yn cynnwys cydymffurfiaid Covid yr ymdrinnir ag ef yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn
- **Dros 750** o fusnesau yn destun ymyrraeth, fel cyngor, ymchwiliad neu atgyfeiriad

- **53%** o wasanaethau Safonau Masnach yng Nghymru yn gweithredu cynllun masnachwr gwarantedig
- **Dros 27,000** o gynhyrchion ffug gyda gwerth marchnad o dros £312,000, sy'n torri eiddo deallusol busnesau cyfreithlon, wedi'u hatafael

Gellir ystyried bod cyflenwi nwyddau ffug yn drosedd "di-ddioddefwr" ond y gwir amdani yw eu bod yn cael eu rhedeg gan gangiau troseddol cyfundrefnol rhyngwladol. Mae elw o werthiannau yn ariannu gweithgaredd troseddol arall wrth niweidio busnesau cyfreithlon sy'n cynhyrchu, dosbarthu a phrynu trwyddedau i werthu cynhyrchion cyfreithlon.



Cyngor Sir Ynys Môn

Yn ystod 2020-21, roedd mwyafrif y busnesau newydd yn siopau codi (pop-ups) o ganlyniad i'r pandemig neu'r busnesau presennol yn arallgyfeirio. Darparwyd cefnogaeth ar ffurf cyngor ac arweiniad ynghylch yr holl ddeddfau, rheoliadau ac arferion masnachu perthnasol. Mae cefnogaeth wedi bod yn mynd rhagddi a rhai atgyfeiriadau i Fusnes Cymru i gynorthwyo mwy o fusnesau newydd tymor hir. O ganlyniad i ymholiadau cysylltiedig â Covid gan fusnesau, crëwyd pecynnau post a phecynnau gwybodaeth ar bryderon pwnc-benodol a'u dosbarthu i amrywiol sectorau busnes i gwmpasu'r holl ymholiadau posibl wrth i reoliadau gael eu diwygio a diweddarau canllawiau.

Cyngor Sir Ceredigion

Mae'r gwasanaeth wedi bod wrthi'n cynghori busnesau lleol ar reolau Covid-19 trwy gydol 2020/21 ac mae ei swyddogion wedi bod yn cynnal patrolau ar y cyd yn rheolaidd gyda'r Heddlu Lleol. Mae gwybodaeth gyffredinol ynghylch deddf Natasha hefyd wedi'i darparu'n rhagweithiol i fusnesau bwyd (rhai newydd a phresennol). Mae gorfodaeth covid wedi cael ei harwain a'i rheoli'n bennaf gan y gwasanaeth Safonau Masnach. Mae gwahanol sectorau diwydiant wedi derbyn cyngor ac arweiniad Covid wedi'u teilwra ar sut i ailagor yn ddiogel yn ogystal ag archwiliadau ar y safle, monitro ymweliadau, ailymweld, cyhoeddi Hysbysiadau Gwella Safle a Hysbysiadau Cau Safle, datganiadau i'r wasg rheolaidd, llythyrau cynghori, ac ati

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Yn ystod Covid, gwnaed cysylltiadau trwy'r Timau Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Adfywio o fewn yr awdurdod lleol er mwyn lledaenu gwybodaeth ac arweiniad sy'n ymwneud â covid. Hefyd, cysylltiadau pellach â phartneriaethau Canol y Dref trwy gyngor ac arweiniad Covid i'w lledaenu i'w haelodau. Y bwriad yw bod y cysylltiadau'n cael eu cynnal ar ôl Covid mewn perthynas â materion Safonau Masnach eraill.

Cyngor Sir Penfro

Cychwynnodd Cyngor Sir Penfro brosiect i adnabod gwerthwyr cerbydau modur amlededd uchel (o gilfannau, meysydd parcio, grwpiau gwerthu cyfryngau cymdeithasol, ac ati) a darparu cyngor cydymffurfio, gan gynnwys y gofyniad i ddatgan statws masnach, er mwyn rhoi hyder i ddefnyddwyr a sicrhau eu bod yn cael eu trin yn yr un modd â'r fasnach fodur sefydledig.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cydon Taf

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith fawr ar y gwasanaeth Safonau Masnach yn ystod yr amserlen hon. Gwnaed cysylltiadau â thimau Adfywio a Chynllunio'r Cyngor sydd â chyfrifoldeb am ganol y trefi lleol i ledaenu gwybodaeth ac arweiniad sy'n gysylltiedig â COVID i fusnesau lleol. Gwnaed cysylltiadau pellach â Thimau Gorfodi Gofal Stryd y Cyngor i ymweld ag adeiladau i fesur cydymffurfiad â'r rheoliadau ac mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhoi yn

ôl i Dimau Gorfodi COVID i weithredu a rhoi cyngor i fusnesau. Gwnaed cysylltiadau ag Adran Addysg y Cyngor a dosbarthwyd cyngor ac arweiniad ar holl faterion COVID. Gobeithio y bydd hyn yn arwain at gynnal y cysylltiadau ar ôl COVID ar gyfer materion Safonau Masnach eraill. Ar ddechrau'r pandemig arallgyfeiriodd nifer o fusnesau i wneud hylif diheintio dwylo, a masgiau wyneb, roedd swyddogion ar gael i ddarparu cyngor ac arweiniad i'r busnesau gynhyrchu a chyflenwi cynhyrchion diogel. Ar ddechrau'r pandemig, newidiodd nifer o fusnesau bwyd eu model gweithredu ac arallgyfeirio i ddarparu gwasanaethau cludfwyd i gwsmeriaid. Mae swyddogion wedi darparu cyngor ar labelu bwyd cyffredinol a Phwysau a Mesurau.

Gwasanaethau Rheoleiddio ar y Cyd

Ers i'r Gwasanaethau ddod i fodolaeth yn 2015, mae wedi datblygu ystod o wasanaethau i gefnogi busnesau lleol gan gynnwys sesiynau arweiniad pwrpasol a darparu cyrsiau hyfforddi. Arweiniodd heriau 2020-21 at adolygiad o'r ffordd y mae cefnogaeth i fusnesau wedi'i darparu, i weddu yn well i anghenion y gwahanol sectorau masnach sy'n newid yn gyflym.

Ymhlith ei bartneriaethau Awdurdod Sylfaenol, mae gan y Gwasanaethau dair gydag archfarchnadoedd mawr ar gyfer materion datganoledig yn unig. Trwy sgwrs reolaidd, mae'r gwasanaeth wedi gallu cynorthwyo'r cwmnïau hyn i lywio'r newidiadau, a wnaed ar gyflymder, i Reoliadau Cyfyngiadau Coronafirws yng Nghymru.

Ar yr un pryd, cynorthwyodd y gwaith hwn awdurdodau lleol ledled Cymru wrth i'r Gwasanaethau weithredu fel cyfrwng ar gyfer ymholiadau am y mesurau sydd ar waith ar draws yr amrywiol siopau, a thrwy hynny gynorthwyo cysondeb ac osgoi dyblygu. Llwyddodd y Gwasanaethau i sicrhau bod crynodeb o'r trefniadau y gallent ddisgwyl eu gweld yn cael eu rhoi ar waith gan fanwerthwyr yr Awdurdod Sylfaenol ar lefel siop leol o ran diogelwch COVID i wasanaethau rheoleiddio eraill awdurdodau lleol.

Mae'r dogfennau cryno hyn yn nodi'r modd yr oedd siopau'n anelu at sicrhau cydymffurfiaid â phethau fel nwyddau nad ydynt yn hanfodol, gwisgo gorchuddion wyneb, trefniadau glanhau a hefyd wrth reoli capasiti'r siopau. Diweddarwyd y dogfennau hyn yn ôl yr angen, er enghraifft i adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau Coronafirws.



ADRAN 3: HYRWYDDO IECHYD A LLESIANT

Mae Safonau Masnach yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau i ddiogelu a hyrwyddo iechyd a llesiant cymunedau lleol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cynhyrchion y mae pobl yn eu prynu yn ddiogel, bod bwyd wedi'i labelu'n gywir ac yn glir i'w helpu i wneud dewisiadau iach ac osgoi alergenau. Mae Safonau Masnach hefyd yn sicrhau iechyd a llesiant anifeiliaid sy'n cael effaith ar gyfanrwydd y gadwyn fwyd. Mae cynhyrchion â chyfyngiadau oedran, gan gynnwys tybaco, alcohol a chyllyll, hefyd yn faes ffocws sylweddol i lawer o awdurdodau, gan helpu i gadw pobl ifanc yn ddiogel.

3.1 Sicrhau Diogelwch Cynhyrchion Defnyddwyr

Cynlluniwyd deddfwriaeth a orfodir gan Safonau Masnach i sicrhau bod cynhyrchion yn ddiogel. Mae problemau'n parhau o ran diogelwch nwyddau gwyn defnyddwyr a nwyddau rhad wedi'u mewnfurfio fel goleuadau trydan, gwefryddion ffôn a cholur sy'n anniogel. Mae swyddogion yn defnyddio gwybodaeth i gyfeirio ymarferion a phrosiectau samplu i ganfod a chipio cynhyrchion anniogel mewn porthladdoedd mynediad ac sydd ar werth yng Nghymru. Eleni mae nifer yr eitemau a wiriwyd wedi cynyddu wyth gwaith. Mae hyn oherwydd bod Safonau Masnach yn gwirio nifer fawr iawn o eitemau PPE i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safonau diogelwch.

Roedd hyn yn hanfodol yn ystod y pandemig er mwyn cadw pawb, ac yn enwedig gweithwyr allweddol, yn ddiogel pan oedd cadwyni cyflenwi dan bwysau aruthrol.

Yn 2020/21, amcangyfrifir ledled Cymru bod:

- **Dros 34,250 o gynhyrchion a PPE anniogel neu nad oeddent yn cydymffurfio wedi'u hatafael neu'u tynnu o'r farchnad yn dilyn ymyriadau Safonau Masnach.**
- **Arbedion i gymdeithas, o ran gwerth cynnyrch ac anafiadau a thanau a ataliwyd, yn dros £1 miliwn**

3.2 Diogelu'r gadwyn fwyd

Gall twyll bwyd, amnewid cynhwysion is-safonol, alergenau heb eu datgan a bwyd wedi'i gam-ddisgrifio oll achosi niwed i iechyd ac achosi niwed i ddefnyddwyr. Yn yr achosion mwyaf difrifol, collwyd bywyd mewn perthynas ag alergenau heb eu datgan.

Yn 2020/21, amcangyfrifir ledled Cymru bod:

- **215 o fusnesau wedi'u hadnabod yn cyflenwi bwyd a gafodd ei gam-ddisgrifio, nad oedd yn datgan alergenau yn gywir, yn cynnwys cydrannau gwenwynig neu anghyfreithlon neu a oedd yn gysylltiedig â thwyll bwyd**

Mae gan ddeddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid a orfodir gan y Gwasanaethau Safonau Masnach rôl allweddol wrth amddiffyn cyfanrwydd ac ansawdd y gadwyn fwyd, cefnogi cymunedau gwledig ac atal lledaenu afiechydon anifeiliaid sy'n peri risg o fwtanu i fodau dynol.

Eleni o'r holl flynyddoedd, dylid cydnabod y risg hon yn well nag y bu yn y gorffennol. Yn 2020/21, amcangyfrifir ledled Cymru:

- **Bod bron i 500 o fusnesau wedi'u canfod wedi torri deddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid.**

Er bod gwaith archwilio pwyntiau rheoli nad yw'n gritigol wedi dod i ben, bu cynnydd mewn cudd-wybodaeth a chwynion mewn perthynas â phryderon lles anifeiliaid yn gysylltiedig ag effeithiau'r pandemig yn ogystal ag achos ffliw adar a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal gwiriadau cydymffurfio yn yr holl adeiladau perthnasol yn yr ardaloedd cyfagos i unrhyw leoliad heintiedig.

3.3 Lleihau'r risg y bydd plant yn cyrchu cynhyrchion â chyfyngiadau oedran

Mae rheolau sy'n atal plant rhag prynu cynhyrchion â chyfyngiadau oedran, fel alcohol, tybaco, cyllyll a tân gwyllt, wedi'u cynllunio i'w hamddiffyn nhw a'u cymunedau lleol rhag niwed uniongyrchol a hirdymor. Mae Gwasanaethau Safonau Masnach yn darparu hyfforddiant a chynghor i fusnesau ac yn cynnal pryniannau prawf, gan ddefnyddio gwirfoddolwyr dan 18 oed, wedi'u targedu at yr eiddo risg uchaf. Eleni ni ddarparwyd unrhyw arian ychwanegol gan y Swyddfa Gartref, trwy NTS, ar gyfer cynnal profion prynu cyllyll ychwanegol. Gostyngwyd lefelau'r holl brofion prynu yn aruthrol oherwydd cyfyngiadau Covid.

O fis Ionawr 2021, darparwyd cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol trwy Gyllid a Thollau EM a NTS ar gyfer gwaith ychwanegol ar dybaco anghyfreithlon.

Yn 2020/21, amcangyfrifir ledled Cymru bod:

- Tybaco anghyfreithlon wedi'i atafaelu o **48 adeilad**
- Dros 536,000 o sigarêts anghyfreithlon wedi'u hatafaelau gwerth amcangyfrif o **£120,783**
- Dros 133.88 cilogram o dybaco anghyfreithlon rholio â llaw wedi'u hatafaelau, gwerth **dros £24,500**
- 35 o gynhyrchion tybaco arbenigol (gan gynnwys shisha) wedi'u hatafaelau, gwerth **dros £3,500**



Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Yn ystod 2020/21 gyda chefnogaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Masnach Cymru, arweiniodd Safonau Masnach Caerffili, gan weithio mewn partneriaeth â Greater Gwent Food Group, ar gynhyrchu adnodd alergen amlieithog cenedlaethol sy'n addas ar gyfer busnesau bwyd, swyddogion gorfodi cyfraith bwyd a sefydliadau addysgol.

Mae'r deunyddiau a gynhyrchir yn Saesneg, Cymraeg, Bengali, Cantoneg, Cwrdeg, Mandarin, Pwnjabeg, Twrceg ac Wrddw i'w gweld ar wefan y Sefydliad Safonau Masnach Siartredig www.tradingstandards.uk/foodallergens/resources.

Lansiwyd yr adnodd ar 8fed Medi 2021 ac mae ar gael i'w ddefnyddio gan bob awdurdod lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn rhan ohono mae:

- Fideo cyflwyno ymwybyddiaeth o alergenau;
 - Taflen yn ymdrin â negeseuon allweddol y cyflwyniad;
 - Fersiynau wedi'u dybio a'u his-deitlo o 'Diwrnod ym Mywyd Chloe/Day in the Life of Chloe' a 'Stori Megan/Megan's Story' (ffilmiau byr a gynhyrchwyd yn wreiddiol gan Gyngor Sir Swydd Gaerhifryn)
 - Poster 'Dywedwch wrthym Os oes gennych Alergedd'
- Mae'n ceisio:
- Gwneud deunydd hyfforddi alergenau yn hygyrch i gynulleidfa ehangach
 - Cynyddu ymwybyddiaeth o alergeddau bwyd fel mater iechyd difrifol a helpu i addysgu am natur y cyflwr a allai fygwth bywyd
 - Rhoi gwybod i Weithredwyr Busnes Bwyd am ofnyon labelu alergenau gan gynnwys newidiadau a ddaeth yn sgil cyflwyno 'Deddf Natasha' a ddaeth i rym ar 1 Hydref 21.
 - Rhybuddio Gweithredwyr Busnesau Bwyd o ganlyniadau posibl ei gael yn anghywir
 - Codi cydymffurfiad cyfreithiol alergenau ymhlith Gweithredwyr Busnesau Bwyd

- Hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant diogelwch bwyd cadarnhaol a chyflenwad bwyd diogel y gall defnyddwyr ymddiried ynddo

Cyngor Sir Fynwy

Atafaelodd Swyddogion Iechyd Anifeiliaid Cyngor Sir Fynwy 128 o wartheg yn gynnar yn y cyfnod clo Covid cyntaf a oedd yn destun Gorchymyn Llys S.20 llwyddiannus o dan Deddf Lles Anifeiliaid 2006 tra bod swyddogion hefyd yn cefnogi gorfodi TTP a Covid.

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Mae symudiad rhai busnesau i fasnachu ar-lein wedi golygu bod Tîm Safonau Masnach Castell-nedd Port Talbot wedi cynyddu ei bresenoldeb ar-lein, i frwydro yn erbyn toriadau posibl i fwyd (gan gynnwys alergenau) a diogelwch. Mae Safonau Masnach hefyd wedi cynhyrchu mwy o bresenoldeb cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo peryglon sgamiau. Mae'r pandemig wedi golygu cynnydd sylweddol mewn gwerthiannau hylif diheintio dwylo a PPE a bydd Safonau Masnach yn parhau i samplu a monitro'r meysydd marchnad hyn yn ystod 2021-22.

Wrth i'r cyfnod clo lacio mae'r gwasanaeth hefyd wedi gweld twf mewn gweithgaredd masnachwyr twyllodrus wrth i ddefnyddwyr geisio gwella eu cartrefi wrth fethu â mynd ar wyliau dramor. Bydd Tîm Safonau Masnach Castell-nedd Port Talbot yn gweithio gydag ysgolion lleol yn y dyfodol agos ar y darpariaethau pacio ymlaen llaw ar gyfer gwerthu ar gyfer alergenau bwyd.

Cyngor Dinas Casnewydd

Defnyddiodd y gwasanaeth bwerau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i gau 7 siop yn gwerthu tybaco anghyfreithlon. Yn dilyn pryniannau prawf llwyddiannus a/neu atafaelu tybaco anghyfreithlon o'r adeilad dan sylw, gwnaed ceisiadau i'r Llys Ynadon am Orchymynion Cau. Caniatwyd pob un. Bu'r safle ar gau am 3 mis gydag opsiwn i ymestyn am 3 mis arall. Y nod tymor hir yw gweithio gyda landlordiaid i atal busnesau tebyg rhag gweithredu yn eu hadeiladau. Os bydd gweithgaredd troseddol yn parhau unwaith y bydd cyfnod Gorchymyn Cau wedi dod i ben, yna gallai landlordiaid o bosibl gael eu hunain yn destun ymchwiliad gwyngalchu arian.

Cyngor Sir Penfro

Erlynodd Tîm Safonau Masnach Cyngor Sir Benfro fasnachwr modur am gyflenwi car peryglus i ddefnyddiwr anabl.

Erlynodd hefyd siop bwyd tecawê am gyflenwi bwyd yn cynnwys alergenau heb eu datgan yn ogystal ag erlyniad proffil uchel i ffermwr am dorri iechyd anifeiliaid a lladd yn anghyfreithlon. Atafaelwyd carcassau ac anifeiliaid a thrwy hynny atal mynediad i'r gadwyn fwyd.



Cynhaliodd y tîm hefyd arolygiadau ac ymweliadau dilynol i sicrhau cydymffurfiaid â darpariaethau Isafbris Uned Alcohol newydd Cymru. (Erbyn diwedd mis Mawrth 2021 roedd dros 95 o'r adeiladau perthnasol wedi'u harchwilio, gyda 100% o'r rhai a arolygwyd yn cydymffurfio yn ystod y cyfnod).

Gwasanaethau Rheoleiddio ar y Cyd

Roedd prinder hylif diheintio dwylo, masgiau wyneb a PPE arall yn gynnar yn y pandemig COVID 19 yn golygu bod awdurdodau lleol yn wynebu anawsterau wrth brynu cyflenwadau digonol ar gyfer staff rheng flaen. Ar gyfer y tri awdurdod lleol y mae'n eu gwasanaethu, darparodd SRS ganllawiau ar ofynion technegol ar gyfer y gwahanol fathau o gynhyrchion a chreu taflenni gwirio i gynorthwyo cydweithwyr Caffael gyda phenderfyniadau prynu yn y dyfodol.

Ar gyfer pob swp o hylif diheintio a brynwyd, trefnodd SRS i samplau gael eu cyflwyno i'r Dadansoddwr Cyhoeddus ac mewn nifer o achosion, roedd y cynnyrch a gyflenwyd yn is na'r 60% o alcohol angenrheidiol i fod yn effeithiol yn erbyn firysau fel y coronafirws. Ymdriniwyd â'r achosion hyn trwy ymchwiliad, gan arwain at baratoi dau achos torri yn ogystal â nifer o atgyfeiriadau gan yr Awdurdod Cartref. O ganlyniad i'r ymyriadau hyn, fforfedwyd miloedd o unedau o gynnyrch hylif diheintio trwy broses y llys.

Cyngor Abertawe

Cydweithio, ymgymryd â gwarantau mewn bariau a manwerthwyr shisha, chwilio am dybaco anghyfreithlon a gorfodi cyfyngiadau Covid ar yr un pryd. Arweiniodd hyn at gau adeilad a oedd hefyd yn gysylltiedig â materion yn ymwneud â diogelu plant.


ADRAN 4: CEFNOGAETH SAFONAU MASNACH AR GYFER YR YMATEB COVID

Trading Standards were a key part of the local authority Covid response, along with other colleagues in regulatory services. The information below reflects the local authority wide response to Covid not just the input from Trading Standards as, whilst they played a key part, their input cannot be separated from that of other colleagues, especially within Environmental Health.

Roedd Safonau Masnach yn rhan allweddol o ymateb Covid yr awdurdodau lleol, ynghyd â chydweithwyr eraill ym maes gwasanaethau rheoleiddio. Mae'r wybodaeth isod yn adlewyrchu ymateb yr awdurdodau lleol i Covid nid yn unig y mewnbwn gan Safonau Masnach oherwydd, er eu bod yn chwarae rhan allweddol, ni ellir gwahanu eu mewnbwn â mewnbwn cydweithwyr eraill, yn enwedig ym maes lechyd yr Amgylchedd.

Yng Nghymru, cefnogodd Safonau Masnach awdurdodau lleol gyda:

- Darparu cyngor rhagweithiol i bron i 53,000 o safleoedd busnes
- Delio â dros 42,500 o ymholiadau
- Cynnal dros 48,000 o ymweliadau busnes
- Ymgymryd â 3,200 o gamau gorfodi



Cyngor Sir Ceredigion

Mae Ceredigion wedi bod yn un o'r ardaloedd mwyaf diogel ar dir mawr y DU o ran risg Covid-19 ac mae ymrwymiad y gwasanaeth i gyflawni a gorfodi rheoliadau Covid-19 wedi bod yn ffactor sy'n cyfrannu at hyn yn ogystal â'r lefel uchel gyffredinol o gydymffurfiaeth a welir gan fusnesau lleol. Mae'r gwasanaeth wedi bod wrthi'n cynghori busnesau lleol ac wedi bod yn cynnal patrolau rheolaidd ar y cyd gyda heddlu lleol. Mae'r Tîm Gorfodi Covid wedi'i arwain a'i reoli'n bennaf gan y gwasanaeth Safonau Masnach, ac o ganlyniad, bu'n rhaid atal swyddogaethau/dyletswyddau Safonau Masnach eraill dros dro. Mae gwahanol sectorau diwydiant wedi derbyn cyngor ac arweiniad Covid wedi'i deilwra ar sut i ailagor yn ddiogel yn ogystal ag archwiliadau ar y safle, monitro ymweliadau, ailymweld, cyhoeddi Hysbysiadau Gwella Safle a Hysbysiadau Cau Safle, datganiadau i'r wasg rheolaidd, llythyrau cynghori, ac ati. Mae'r gwasanaeth Safonau Masnach hefyd wedi bod yn gysylltiedig â chefnogi'r Profi, Orlhain a Diogelu Covid y tu allan i oriau i fynd i'r afael â'r unigolion hynny sy'n gwrthod hunan-ynysu yn fwriadol pan ofynnir iddynt wneud hynny gan staff Profi, Orlhain a Diogelu.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Dangosodd staff Safonau Masnach eu hyblygrwydd yn ystod y pandemig wrth iddynt gael eu hadleoli mewn sawl maes lle'r oedd angen cefnogaeth broffesiynol ar awdurdodau lleol. Roeddent yn gweithredu fel cofrestryddion marwolaeth brys a chynghorwyr Tracio ac Orlhain. Cafodd Tîm Gorfodi Covid ei sefydlu a'i reoli gan Safonau Masnach a gynghorodd adrannau cynghorau mewnol drwyddi draw. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda Chaffael mewn perthynas â masgiau wyneb a hylif diheintio; a chynghori ar etholiad Covid ddiogel.

Cyngor Gwynedd

Mae'r pandemig Coronafirws wedi cael effaith fawr ar ddarparu gweithgaredd Safonau Masnach yn ystod 2020-21. Fodd bynnag, yr hyn sy'n amlwg yw'r rôl bwysig y mae Safonau Masnach yn ei chwarae wrth hyrwyddo iechyd a lles ym mhob agwedd ar fywyd. Gan chwarae ei ran wrth ddiogelu iechyd a lles y cyhoedd, mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud gwaith sylweddol ar gynghori busnesau a sefydliadau ar ddiogelwch cynhyrchion fel hylif diheintio dwylo, glanhawyr arwyneb, gorchuddion wyneb a menig i frwydro yn erbyn bygythiad y Coronafirws.